***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 101

# Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

## RHAN 3

## CREDYD ANSOLFEDD CWSMER

*Hawlio credyd*

**Hawliadau gan bersonau sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy**

**19.**—(1) Caiff person cofrestredig sydd â hawlogaeth i gredyd ansolfedd cwsmer mewn cysylltiad â gwarediad trethadwy hawlio'r credyd mewn ffurflen dreth a ddychwelir mewn cysylltiad ag—

(a) y cyfnod cyfrifyddu cymwys cyntaf, neu

(b) unrhyw gyfnod cyfrifyddu dilynol.

(2) Y cyfnod cyfrifyddu cymwys cyntaf yw'r cyfnod cyfrifyddu y daw'r cyfnod o 6 mis, sy'n dechrau â dyddiad y digwyddiad ansolfedd perthnasol, i ben ynddo.

(3) Mae'r hawliad i'w wneud yn y ffurflen dreth—

(a) drwy osod swm y credyd yn erbyn swm y dreth y byddai fel arall yn ofynnol i'r person ei dalu o dan adran 42(1) o DTGT mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu perthnasol, a

(b) os yw swm y credyd yn fwy na swm y dreth, drwy ddatgan swm y credyd gormodol.

(4) Pan fo swm o gredyd gormodol yn cael ei ddatgan yn y ffurflen dreth yn unol â pharagraff (3)(b)—

(a) caiff ACC osod y swm hwnnw yn erbyn unrhyw swm o dreth y mae'n ofynnol i'r person ei dalu ond nad yw wedi ei dalu eto, a

(b) os oes unrhyw swm o gredyd gormodol yn weddill, rhaid i ACC dalu i'r person swm sy'n hafal â'r swm hwnnw sy'n weddill.

(5) Ond nid yw'n ofynnol i ACC wneud taliad o dan baragraff (4)(b) oni bai, a hyd nes, bod pob ffurflen dreth y mae'n ofynnol i'r person ei dychwelyd mewn cysylltiad â'r dreth wedi ei dychwelyd.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "y digwyddiad ansolfedd perthnasol" ("*the relevant insolvency event*") yw'r digwyddiad ansolfedd a arweiniodd at hawlogaeth i gredyd mewn cysylltiad â'r gwarediad trethadwy;

ystyr "y cyfnod cyfrifyddu perthnasol" ("*the relevant accounting period*") yw'r cyfnod cyfrifyddu y dychwelir y ffurflen dreth sy'n cynnwys yr hawliad mewn cysylltiad ag ef.

**Hawliadau gan bersonau eraill**

**20.**—(1) Caiff person—

(a) nad yw'n gofrestredig, a

(b) sydd â hawlogaeth i gredyd ansolfedd cwsmer mewn cysylltiad â gwarediad trethadwy,

hawlio'r credyd drwy wneud cais ysgrifenedig i ACC.

(2) Ni chaniateir gwneud cais o dan baragraff (1) cyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â dyddiad y digwyddiad ansolfedd perthnasol.

(3) Os yw ACC wedi ei fodloni—

(a) nad yw'r person yn gofrestredig,

(b) bod gan y person hawlogaeth i swm o gredyd ansolfedd cwsmer, ac

(c) nad yw'r hawlogaeth i'r credyd wedi ei throsglwyddo i unrhyw berson arall,

rhaid i ACC dalu i'r person swm sy'n hafal â swm y credyd.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y digwyddiad ansolfedd perthnasol" yw'r digwyddiad ansolfedd a arweiniodd at hawlogaeth i gredyd mewn cysylltiad â'r gwarediad trethadwy.

**Darpariaeth atodol sy'n ymwneud â hawliadau**

**21.**—(1) Rhaid i hawliad am gredyd ansolfedd cwsmer mewn cysylltiad â gwarediad trethadwy fod am gyfanswm y credyd mewn cysylltiad â'r gwarediad hwnnw (yn hytrach na rhan o'r swm yn unig).

(2) Pan fo gan berson hawlogaeth i gredyd ansolfedd cwsmer mewn cysylltiad â mwy nag un gwarediad trethadwy, caniateir gwneud hawliad mewn cysylltiad â phob un o'r gwarediadau hynny, neu mewn cysylltiad ag un ohonynt neu rai ohonynt yn unig.

(3) Pan fo—

(a) swm o gredyd ansolfedd cwsmer wedi ei osod, o dan reoliad 19(3)(a) neu (4)(a), yn erbyn swm o dreth y byddai'n ofynnol i berson ei dalu fel arall, neu

(b) swm sy'n hafal â swm credyd ansolfedd cwsmer yn cael ei dalu i berson o dan reoliad 19(4)(b) neu 20(3),

mae'r person i'w drin, at ddibenion y Rhan hon, fel pe bai wedi cael budd o'r swm hwnnw o gredyd.